# Cylchlythyr Tymor yr HAF, 2016

## SUMMER Term Newsletter, 2016

# Ysgol Dyffryn Nantlle

D e l f r y d D y s g C y m e r i a d

## Holiadur Disgyblion

Yn ystod y flwyddyn mae disgyblion wedi cwblhau nifer o holiaduron, boed yn holiaduron adrannol neu holiaduron ysgol gyfan. Pwrpas yr holiaduron yma yw adnabod materion cadarnhaol ac agweddau sydd angen sylw i'r ysgol weithredu arnynt. Gwelir isod ganlyniadau rhai o gwestiynau'r holiadur ysgol gyfan a gwblhawyd yn nhymor y Gwanwyn. Diolch i'r 220 o ddisgyblion a ymatebodd mor gadarnhaol iddo.

**96%** yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

**92%** yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol.

**93%** yn teimlo bod athrawon yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac yn eu helpu pan fydd ganddynt broblemau.

**97%** yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i wneud pethau drostynt eu hunain a chymryd cyfrifoldeb.

**94%** yn teimlo bod yr ysgol yn eu helpu i ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill.

Diolch i'r 44 o rieni a gwblhaodd holiadur ym mis Ionawr. Rydym wedi gweithredu ar yr agweddau a amlygwyd a byddwn yn parhau i weithredu arnynt ym mlwyddyn academaidd 2016-2017.

Ar 1af o Orffennaf cwblhaodd 175 o ddisgyblion (croesdoriad o flynyddoedd 7 i 12) holiadur gyda'r ffocws penodol ar safonau Addysgu a Dysgu; dyma brif ganfyddiadau'r holiadur hwnnw:

**96%** yn teimlo bod safonau addysgu wedi gwella llawer.

**90%** yn teimlo bod athrawon yn cynnwys strategaethau dysgu amrywiol yn eu gwersi.

**93%** yn teimlo bod y gwaith y mae'r athrawon yn ei osod yn eu herio.

**88%** yn teimlo bod marcio athrawon yn eu helpu i wella safon eu gwaith.

**92%** yn teimlo bod marcio athrawon yr ysgol yn gyson, h.y. marcio yn rheolaidd, marcio dwy seren a dymuniad ar ddiwedd tasg estynedig, SPLAT.

## Bl.11



Cyn cyfnod arholiadau Bl.11, daeth cwmni 'Learning Performance' i'r ysgol i gyflwyno strategaethau adolygu defnyddiol i'r disgyblion. Roedd y neges bod cynllunio manwl ac adolygu'r holl bynciau yn allweddol os ydynt am lwyddo yn yr haf. Braf cofnodi bod pawb o'r flwyddyn wedi cael budd o'r diwrnod. Croesi bysedd rŵan y caiff y disgyblion ganlyniadau haeddiannol yn yr haf.

## Cyngor ECO

Cyngor Eco YDN

Mae wedi bod yn flwyddyn brysur iawn i aelodau'r Cyngor Eco. Erbyn hyn mae'r Cyngor wedi gweithredu ar y Cynllun Gweithredu a luniwyd ganddynt ar gychwyn y flwyddyn i sicrhau bod yr ysgol yn ymateb i faterion cynaliadwyedd. Mae'r Cyngor wedi derbyn tystysgrif Arian am eu hymdrechion eleni. Baner Werdd amdani y flwyddyn nesaf!

## Mabolgampau 2016




Cynhaliwyd diwrnod mabolgampau llwyddiannus unwaith yn rhagor gyda thŷ Llyfnwy yn fuddugol eleni.

Digwyddiad hanesyddol eleni 3 brawd yn rhedeg yn yr un ras. Llongyfarchiadau i Endaf, Aled a Rhys Davies.

Llongyfarchiadau i Ryan Owen , George Gill , Kayne Larkins a Cadi Bracegirdle ar gynrychioli'r ysgol ym Mabolgampau Ysgolion Cymru.

## Cyngor Ysgol

Cyngor Ysgol YDN

Blwyddyn gynhyrchiol a phrysur iawn i'r Cyngor eleni. Maent wedi trafod a gweithredu ar nifer o faterion allweddol, megis:

- Safonau Addysgu a Dysgu
- Paratoadau ar gyfer arholiadau allanol
- Polisi Marcio a safonau marcio'r Ysgol
- Cynnal a Chadw.

## Llongyfarchiadau i:



Einion Worth ar ennill Dysgwr y Flwyddyn yn Adran Adeiladwaith Coleg Glynllifon eleni.



Anna Kinniburgh a Tomos Bracegirdle enillwyr Gwobr Goffa Guto Aeddan Williams eleni.



Martha Morgan ar ennill Pencampwraig Marchogaeth Cynghrair y Gaeaf Fferm Bryn Derw, Brynrefail.



Mari Vawer ar ennill tystysgrif EFYDD yng nghwrs Gwobr Dug Caeredin.



Hedydd,Gethin,Osian, Siwan,Abbey a chast Plant y Gwyll buddugwyr mewn gŵyl ffilm ym mis Mawrth.



Ffion Jones enillydd Tlws Chwaraewraig y Gemau yng Nghyngrair Gogledd Orllewin Cymru.



Genod y Dyffryn yn 2il yng Nghyngrair Gogledd Orllewin Cymru. Enillodd y genod bob gêm ac eithrio un.

## Prom Blwyddyn 11



Nos Wener, 27ain o Fai cynhaliwyd Prom Bl.11 ym Meiford ger Caernarfon. Roedd pawb wedi gwisgo'n hynod o drwsiadus er mwyn dathlu eu llwyddiannau a'u hamser yn Ysgol Dyffryn Nantlle. Cafwyd pryd dau gwrs ac yna rhannu gwobrau a dawnsio. Erbyn diwedd y noson roedd hyd yn oed y staff ar eu traed yn dangos eu doniau dawnsio gorau. Roeddem yn falch o'r myfyrwyr am eu bod yn ymddwyn yn ganmoladwy ac yn foesgar tu hwnt. Roedd hi'n noson fythgofiadwy unwaith yn rhagor. Diolch i Miss C.McDermott am drefnu'r noson.

## Seremoni Gwobrwyo Blwyddyn 11



Diolch i Mr Richard Wyn Hughes, perchennog Pant Du am ei araith i flwyddyn 11 yn ystod y Seremoni Gwobrwyo eleni. Gweithio'n galed a dyfalbarhau i wireddu dyheadau personol oedd y brif neges er mwyn llwyddo a pheidio â rhoi'r ffidil yn y to pan yn wynebu cyfnod anodd.Cyflwynwyd Ffeil Gyflwyno i bawb fydd yn arf ddefnyddiol i werthu eu hunain i gyflogwyr y dyfodol. Pob lwc i chi gyd yn yr haf a dymuniadau gorau i chi yn y dyfodol.

**https://twitter.com/ydnantlle**

## Dyddiadau Pwysig

| | |
|---|---|
| **15 Gorffennaf** | Diwrnod olaf y tymor |
| **18 Awst** | Diwrnod Canlyniadau Lefel A |
| **25 Awst** | Diwrnod Canlyniadau TGAU |
| **5 Medi** | Diwrnod cyntaf blwyddyn 2016-2017 |
| **20 Medi** | Noson Croesawu Bl.7 |
| **29 Medi** | Cyflwyno Cyrsiau Bl.10 |
| **8 Tachwedd** | Noson Agored Bl.6 |
| **29 Tachwedd** | Fforwm Rhieni |
| **6 Rhagfyr** | Cyfarfod Rhieni Bl.12 ac 13 |
| **24-28 Hydref** | Hanner Tymor Hydref |
| **19 Rhagfyr-2 Ionawr** | Gwyliau Nadolig |

## Llwyddiannau

Llongyfarchiadau i Ceri Lynn Jones, Buddug Eckley a Melissa Lambe ar ennill ysgoloriaeth yng Ngholeg Cymraeg Cenedlaethol. Bydd Melissa yn astudio cwrs Treftadaeth ac Archaeoleg ym Mhrifysgol Bangor, Ceri Lynn Jones yn astudio Criminoleg ym Mhrifysgol Bangor a Buddug yn astudio Meddygaeth ym Mhrifysgol Caerdydd. Dymuniadau gorau i'r tair ohonyn nhw!

Llongyfarchiadau i Megan Hunter ar fod yn llwyddiannus yng nghystadleuaeth 'Rising the bar'. Cystadleuaeth ydyw sydd wedi cael ei threfnu gan National Deaf Children Society er mwyn codi disgwyliadau'r 45,000 o blant byddar ym Mhrydain o ran yr hyn y maen nhw'n gallu cyflawni. Da iawn ti Megan.

Llongyfarchiadau i Ryan Owen, Pencampwr Bocsio Cymru 66kg, Medal Efydd yn y 3 Nations!

**Llwyddiannau yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Sir Fflint.**

- Llongyfarchiadau i Huw Iorweth Evans Bl7 1af am Wehyddu a 3ydd am Addurno ar ffabrig yn yr Adran Celf a Chrefft.
- Llongyfarchiadau i Heledd Eryri Jones Bl.8 am ddod yn 3ydd am ysgrifennu darn o ryddiaith yn yr Adran Gwaith Cartref.

## Staffio

Ar ddiwedd y tymor hwn, wedi 36 o flynyddoedd, bydd John Bryn Owen, Arweinydd Galwedigaethol, yn ymddeol. Daeth yma ym 1980 fel athro Daearyddiaeth a bu'n hynod lwyddiannus yn y gwaith gan ennill brwdfrydedd disgyblion. Diolchwn iddo hefyd am ei gyfraniad gwerthfawr i sawl agwedd o fywyd yr Ysgol ond yn arbennig i'r cwricwlwm amgen y bu'n gyfrifol am ei sefydlu yn y 90au. Does dim amheuaeth y gall edrych yn ôl ar ei yrfa gyda balchder. Oherwydd hynawsedd ei natur fe fu'n hynod boblogaidd gyda'r disgyblion a'i gyd-athrawon a pharchwyd ef ganddynt ar hyd ei yrfa. Hir oes a phob hapusrwydd iddo yn ei ymddeoliad oddi wrth y disgyblion a'r athrawon.

Rydym yn ffarwelio â Mrs Nerys Jones Williams wedi 17 o flynyddoedd fel athrawes AAA. Mae hi wedi ennyn parch sawl cenhedlaeth o staff, disgyblion, rhieni a chyfeillion yr ysgol. Rydym fel ysgol yn diolch iddi am ei gwasanaeth graenus ac yn dymuno ymddeoliad hir, iach a hapus dros ben iddi.

Dymunwn ymddeoliad hapus a dedwydd i Mrs Stella Stansfield a diolch iddi am ei gwasanaeth fel athrawes AAA dros y blynyddoedd.

Bydd Miss Catrin O'Regan, Arweinydd Ffrangeg, yn ein gadael ddiwedd y tymor hwn i addysgu yn Ysgol Uwchradd Llangefni. Dymunwn bob llwyddiant iddi yn ei hysgol newydd a diolch iddi am ei gwasanaeth cydwybodol ac o'r safon uchaf dros ei chyfnod yma .

Diolch i Mrs Bethan Pugh a Miss Alwena Williams am eu gwasanaeth fel cymorthyddion yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Dymuniadau gorau i'r dyfodol i'r ddwy ohonoch.

Diolch i Mr Alun Edwards am ei wasanaeth cydwybodol fel athro Ffiseg yn ystod cyfnod mamolaeth Mrs Delyth Jennings ac i Miss Lowri Hughes, athrawes Cemeg dros yr hanner tymor diwethaf. Dymuniadau gorau i'r ddau ohonoch.

D e l f r y d D y s g C y m e r i a d

# Cylchlythyr Tymor yr HAF, 2016
## SUMMER Term Newsletter, 2016

# Ysgol Dyffryn Nantlle

## Pupils' Questionnaire

During the year pupils completed a number of questionnaires, both departmental and whole school questionnaires. The purpose of these questionnaires was to identify positive issues and aspects that the school need to address. See below for some of the whole school survey questions completed in Spring; thanks to the 220 pupils who responded to them!

**96%** felt safe in school.

**92%** felt they were doing well in school.

**93%** felt that teachers were helping them to learn and progress, and helping them when they had problems.

**97%** felt they were encouraged to do things for themselves and to take responsibility.

**94%** felt that the school was helping them to understand and respect people from other backgrounds.

Thanks to the 44 parents who completed a questionnaire in January. We have acted on the aspects highlighted, and will continue to act on them during the academic year 2016-2017.

On 1st July, 175 pupils (a cross-section of years 7 to 12) completed a questionnaire with a specific focus on Teaching and Learning standards; these are the main findings of that questionnaire:

**96%** felt that teaching standards had improved considerably.

**90%** felt that teachers were including various learning strategies in their lessons.

**93%** felt that the work set by teachers challenged them.

**88%** felt that teachers' marking helped them to improve the standard of their work.

**92%** felt that teachers' marking in school was consistent, i.e. regular marking, 2 stars marking at the end of an extended task, SPLAT.

## Yr.11



Before the Year 11 examinations, the 'Learning Performance' company came to school to present useful revision strategies for pupils. The message was that detailed planning and revision of all topics is crucial if they are to succeed in the summer. It's good to know that everyone from the year benefited from the day; fingers crossed now that the pupils will get the results they deserve in the summer.

## ECO Council

Cyngor Eco YDN

It has been a very busy year for the Eco Council members. The Council has acted upon the Action Plan drawn up by them at the beginning of the year to ensure that the school responds to the issue of sustainability. The Council has received a Silver certificate for their efforts this year. Going for a Green Banner next year!

## Sports 2016




A successful sports day was held again with Llyfnwy house winning this year.

A historical event this year, as 3 brothers all ran in the same race. Congratulations to Endaf, Aled and Rhys Davies.

Congratulations to Ryan Owen , George Gill , Kayne Larkins and Cadi Bracegirdle who represented the school at the Welsh Schools' sports day.

## School Council

Cyngor Ysgol YDN

A busy and productive year for the Council this year. They discussed and acted upon a number of crucial issues, such as:

- Teaching and Learning Standards.
- Preparations for external examinations.
- Marking policy and the school's marking standards;
- Maintenance.

## Congratulations to:

|  |  |  |  |  |  |  |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Einion Worth on winning Learner of the Year in Coleg Glynllifon's Construction Department. | Anna Kinniburgh and Tomos Bracegirdle, the winners of the Guto Aeddan Williams Memorial Award. | Martha Morgan on winning the Winter League's Riding Championship, Bryn Derw Farm, Brynrefail. | Mari Vawer on winning the Bronze Award on the Duke of Edinburgh Award course. | Hedydd,Gethin, Osian, Siwan, Abbey and the cast of Plant y Gwyll, winners in a Film Festival in March. | Ffion Jones, winner of the Games' Sportswoman Award in the North West Wales League. | Dyffryn Girls who came 2nd in the North West Wales League. The girls won every game except one. |

## Year 11 Prom



On Friday, 27th of May the Year 11 Prom was held at Meifod near Caernarfon. Everyone was dressed very smartly in order to celebrate their successes and their time at Ysgol Dyffryn Nantlle. There was a two course meal and then the awards were distributed, followed by dancing. By the end of the evening even the staff were on their feet, showing off their best dancing talents. We were proud of the students' exemplary behaviour. Once again, it was an unforgettable evening. Thanks to Miss. C. McDermott for organising the evening.

## Year 11 Awards Ceremony



Thank you to Richard Wyn Hughes, the owner of Pant Du for his speech to Year 11 during this year's Awards Ceremony. The main message was to work hard and persevere in order to fulfil personal aspirations, to achieve success and not to give up when facing difficulties; this message will surely be remembered by everyone present. A Presentation File was presented to all, which will be a handy tool to market themselves to future employers. The best of luck to you all during the summer and best wishes for the future.

**https://twitter.com/ydnantlle**

## Important Dates

| | |
|---|---|
| **15 July** | Last day of school term. |
| **18 August** | A Level result day. |
| **25 August** | GCSE result day. |
| **5 September** | First day of 2016-2017 year. |
| **20 September** | Yr.7 Parents Evening. |
| **29 September** | Yr.10 Assessment Introduction. |
| **8 November** | Yr.6 Open Evening. |
| **29 November** | Parent Forum. |
| **24-28 October** | Half Term Holidays. |
| **6 December** | Yr.12 and 13 Parent Evening. |
| **19 December-2 January** | Christmas Holidays. |

## Successes

Congratulations to Ceri Lynn Jones, Buddug Eckley and Melissa Lambe for winning Welsh National College scholarships. Melissa will study Heritage and Archaeology at Bangor University, Ceri Lynn Jones will study Criminology at Bangor University, and Buddug will study Medicine at Cardiff University. Best wishes to all three of them!

Congratulations to Megan Hunter for her success in the 'Raising the bar' competition. This is a competition organised by the National Deaf Children Society to raise expectations of 45,000 deaf children in Britain in terms of what they can achieve. Well done Megan!

Congratulations to Ryan Owen, Wales' 66kg Boxing Champion, Bronze Medal in the 3 Nations!

**Successes in the Urdd National Eisteddfod, Flintshire.**

- Congratulations to Huw Iorwerth Evans Yr.7 for coming 1st and 3rd in the Decoration on Fabric competition.
- Congratulations to Heledd Eryri Jones Yr.8 for coming 3rd for writing a piece of prose.

## Staffing

At the end of this term, after 36 years, John Bryn Owen, Vocational Leader, retires. He came here in 1980 as a Geography teacher and has been extremely successful in the work, evidenced by the enthusiasm he engendered in pupils. We thank him also for his valuable contribution towards several aspects of school life but especially for the alternative curriculum that he was responsible for establishing in the 90s. There is no doubt that he can look back on his career with pride. Because of his gentle nature, he has been extremely popular with pupils and fellow teachers, who respected him throughout his career. Our hope as pupils and teachers is that he has a long and happy retirement.

We are also saying goodbye to Mrs Nerys Jones Williams after 17 years as a SEN teacher. She has won the respect of several generations of staff, pupils, parents and friends of the school. As a school we thank her for her impeccable service and wish her a very long, healthy and happy retirement.

We wish Mrs Stella Stansfield a happy and contented retirement and thank her for her service as an assistant over the years.

Miss Catrin O'Regan, the French leader, leaves us at the end of term to teach at Ysgol Uwchradd Llangefni. We wish her every success in her new school and thank her for her conscientious, high-quality service during her time with us.

Thanks to Mrs Bethan Pugh and Mrs Alwena Williams for their service as assistants over the past few years. Best wishes for the future to you both.

Thanks to Mr Alun Edwards for his conscientious service as Physics teacher during Mrs Delyth Jennings' maternity leave, and to Miss Lowri Hughes, Chemistry teacher, over the past half term. Best wishes to you both.